



Live Fear Free Helpline
 Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales.
 Darparu gwybodaeth a chifreogaeth cofrestru a phlant yn arbenigwr i ffurfiarwyr a ffurfiarwyr yn erbyn merched yng Nghymru
0808 80 10 800



Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 Hyfforddi'r Hyfforddwr:

Beth nesaf?

Bydd angen i ddysgwyr ar gyfer Hyfforddi'r Hyfforddwr Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 gofrestru ar adran diogel a than glo Gofyn a Gweithredu ar wefan Cymorth i Ferched Cymru i allu cyrchu eich **Dyddlyfrau Myfyriol ac Astudiaeth Achos**, a **Nodiadau Canllawiau**. Yma hefyd, gallwch ddod o hyd i'r pecyn Cyflwyno Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu Grŵp 2 diweddaraf. Bydd adnoddau eraill a allai fod yn ddefnyddiol i ddysgwyr yn cael eu huwchlywto'n aml felly mae'n bwysig gwirio'r adran hon yn rheolaidd. Oherwydd bod hwn yn ardal dan glo bydd angen i chi gofrestru drwy fynd i wefan Cymorth i Ferched Cymru a chreu cyfrif.

I wneud hyn gallwch ddefnyddio'r cyfeiriad URL hwn <http://www.welshwomensaid.org.uk/training/training-registration/> or following these instructions.

- Ewch i wefan Cymorth i Ferched Cymru -Cliciwch ar y tab 'Hyfforddiant' - Cliciwch ar 'Ardal hyfforddi' (botwm gwyrdd mawr) -Cliciwch ar 'Cofrestru ar gyfer hyfforddiant' - nodwch y wybodaeth sydd ei hangen a chlicio 'Cofrestru'.

Bydd cais yn cael ei anfon at y gweinyddwr a byddwch yn derbyn hysbysiad e-bost unwaith y bydd eich cyfrif wedi cael ei gymeradwyo. Dylech ganiatáu o leiaf 3 diwrnod gwaith i'ch cofrestrriad gael ei gymeradwyo. Ar ôl i chi dderbyn hysbysiad bydd gennych fynediad llawn i'r adran Gofyn a Gweithredu.

Gallwch ddod o hyd i'r adran Gofyn a Gweithredu yn 'Ardal yr hyfforddwr'. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys Adnoddau'r Hyfforddwr sy'n cynnwys dogfennau, taflenni, ystadegau, fideos, erthyglau perthnasol a defnyddiol a mwy, ar eich cyfer chi fel Hyfforddwr Gofyn a Gweithredu Grŵp 2. Nid yw'n orfodol darllen y deunyddiau hyn, ond maen nhw wedi cael eu dewis yn ofalus er mwyn bod yn ddefnyddiol wrth ddeall y materion oedd yn cael sylw yn eich hyfforddiant ymhellach. Er mwyn eich cynorthwyo ymhellach yn eich gwaith o gyflwyno'r hyfforddiant Grŵp 2, mae yna ofod Fforwm hefyd i ofyn cwestiynau cyffredinol am hyfforddiant, megis 'sut i ymdrin ag ymwrthedd yn yr ystafell hyfforddi'. Bydd un o hyfforddwyr Cymorth i Ferched Cymru yn ymateb i'ch ymholiadau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y wefan neu os oes angen unrhyw gymorth arnoch i gofrestru, cysylltwch â training@welshwomensaid.org.uk.

Nawr, bydd angen i chi gwblhau eich **Dyddlyfr Myfyriol ac Aseiad Astudiaeth Achos** ar gyfer eich achrediad. Os ydych yn defnyddio unrhyw ddarllen pellach i gyfiawnhau eich atebion, cofiwch gyfeirio at y ffynonellau hyn, a sicrhau eich bod yn aros o fewn y cyfrif geiriau.

Os oes gennych unrhyw dystiolaeth asesu dosbarth sydd angen ei chyflwyno, megis cynllun gwers a/neu gyflwyniad PowerPoint ar gyfer eich micro-addysgu, er enghraifft, dylech hefyd gyflwyno hyn erbyn y dyddiad cau i'r un cyfeiriad e-bost â'ch llyfr gwaith wedi'i gwblhau.

Y dyddiad ar gyfer cyflwyno'ch llyfr gwaith gorffenedig yw:

.....



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Linell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chfirogeuth
cynfrwyd i gyflwyno a ffônau i ferched
a phlant yn erbyn merched
yn Nghymru

Gofyn a Gweithredu

Ask and Act



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

- **RHAID i chi anfon eich dyddlyfrau myfyriol a'ch Astudiaeth Achos yn electronig i'r cyfeiriad e-bost: workbook@welshwomensaid.org.uk**
Ni fyddwn yn derbyn cyflwyniadau a anfonir i gyfeiriad e-bost arall.
- Os byddwch chi angen **estyniad i'r dyddiad cyflwyno** neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch e-bost at training@welshwomensaid.org.uk

Rydym yn dymuno'n dda i chi gyda chwblhau eich asesiad myfyriol, ac mae croeso i chi gysylltu â ni os oes angen eglurhad pellach arnoch chi.